*This document is available in English* **Rhif ar yr Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Awdurdod Tân ac Achub** |
| Dyddiad | **18 Rhagfyr 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch** |
| Pwnc | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2018-2021 a Chyllideb 2018-2019** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Cyflwyno Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2018-2021 a chyllideb ddrafft ar gyfer 2018-2019.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r adroddiad hwn yn nodi Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod, ac yn nodi'r rhagdybiaethau cyflog a ddefnyddir wrth lunio cyllideb refeniw ddrafft yr Awdurdod ar gyfer 2018-2019. Un yn unig o'r ffactorau anhysbys wrth osod cyllideb fantoledig ar gyfer y flwyddyn nesaf yw cyflog. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r risgiau hynny a'r ansicrwydd, ac mae'n awgrymu ffordd o ariannu'r lefel gyfredol o ddarpariaeth gwasanaethau yn y tymor byr.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau'n:

a. cefnogi'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig

b. cymeradwyo'r Gyllideb Cyfalaf a Refeniw ar gyfer 2018-2019 ar sail cynnydd yn y cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol heb fod yn fwy na 1.5% gyda chyfraniad balansio o'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn.

**CEFNDIR**

4 Mae angen i sefydliad effeithiol gael nifer o gynlluniau corfforaethol i sicrhau bod ei strategaeth gyffredinol a'i gynlluniau gwella yn cael eu cyflawni. Mae Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yr Awdurdod yn cefnogi'r cynlluniau hyn ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio at y meysydd sydd wedi cael eu blaenoriaethu yn y Cynllun Gwella. Mae llunio Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn sicrhau bod dull strategol yn cael ei ddilyn mewn perthynas â chynllunio cyllidebau a chyllid dros y tymor hir, felly mae modd rheoli unrhyw newidiadau arfaethedig dros amser er mwyn sicrhau cyfnod trosglwyddo llyfn.

5 Mae'r Cynllun Gwella blynyddol yn nodi sut mae'r Awdurdod yn bwriadu cyflawni ei gyfrifoldebau statudol ac anstatudol i'r bobl mae'n eu gwasanaethau. Mae'n cael ei ddiweddaru bob blwyddyn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid ac mae'n nodi'r prif amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod felly mae'r ddogfen yn elfen allweddol o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig.

6 Mae'r amcanion yn nodi sut gall yr Awdurdod gynnal a gwella'r modd y mae'n darparu gwasanaethau gweithredol tra hefyd yn cydnabod yr angen i gyfyngu ar y gofyn ychwanegol o'r gyllideb oherwydd y gostyngiad cyffredinol parhaus mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Dyma'r amcanion gwella a gymeradwywyd ar gyfer 2017-2018 a'r blynyddoedd wedyn: cynnal y lefel gyfredol o waith atal tanau; amrywio rôl diffoddwyr tân i gynnig gwasanaeth ychwanegol i'r cyhoedd; a gweithredu strategaeth ariannol tair blynedd a oedd yn ceisio darparu rhywfaint o sefydlogrwydd i'r Gwasanaeth a'r awdurdodau cyfansoddol.

7 I roi'r Strategaeth Ariannol Tair Blynedd yn ei gyd-destun, dylid cofio bod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi rhewi ei gyllideb o 2011-2012 hyd at 2014-2015 er mwyn cyfrannu at y mesurau cyni ledled yr holl sector cyhoeddus. Yn 2015-2016, bu cynnydd bach iawn o ryw £113k ac yn 2016-2017, defnyddiodd yr Awdurdod gronfeydd wrth gefn eto i rewi'r gyllideb. Yn ystod y cyfnod hwn, canfu Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru £3 miliwn o arbedion (10% o'i gyllideb) a gweld ei weithlu – gan gynnwys rheolwyr, diffoddwyr tân, staff diogelwch cymunedol a staff cefnogol – yn gostwng 9%. Yn ôl ystadegau 2015-2016 a gyhoeddwyd ar StatsCymru, mae gostyngiad cyflymach wedi bod yn niferoedd y staff yn GTA Gogledd Cymru nag yn GTA y Canolbarth a'r Gorllewin a GTA y De.

8 Pan ystyriwyd y gyllideb ar gyfer 2017-2018, sylweddolodd yr Aelodau ei bod yn mynd yn anghynaliadwy parhau i geisio rhewi cyllideb yr Awdurdod, felly yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ar 20 Mawrth 2017, cytunodd yr Aelodau i gefnogi amcanion gwella drafft y Awdurdod ar gyfer 2017-2018. Mae'r ail amcan yn nodi awgrym o strategaeth ariannol y gallai'r Awdurdod seilio ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig arno. Dyma'r penderfyniad:

i. "Sicrhau cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod drwy fabwysiadu strategaeth ariannol 3 blynedd sy'n cyfuno'r defnydd o gronfeydd wrth gefn, cynyddu'r cyfraniadau ariannol a gwneud gostyngiadau i wasanaethau."

9 Yn 2017-2018, sef blwyddyn gyntaf y strategaeth hon, roedd yr Awdurdod Tân ac Achub blaenorol wedi cytuno i gynyddu'r cyfraniadau ariannol gan yr awdurdodau cyfansoddol £ 1.28 miliwn, sef cynnydd o 4%. Dyma'r cynnydd sylweddol cyntaf ers 2010. Fodd bynnag, roedd hyn yn llai na'r hyn roedd ei angen i gwrdd â chostau cyflogau cynyddol, prisiau a chyllid cyfalaf. Felly, penderfynwyd tanategu'r gyllideb ar gyfer 2017-2018 gyda £414,000 yn ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn, ac ailedrych ar y gofyniad am £414,000 yn ychwanegol yn 2018-2019.

## SETLIAD DROS DRO GAN LYWODRAETH CYMRU

10 Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru. Mae cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn digwydd drwy Gyllid Allanol Cyfun (*Aggregate External Finance*) (sy'n cynnwys y grant cynnal refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu), a newidiadau mewn refeniwiau trethiant lleol. Y rhaniad cyllid ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau yw 75% yn Gyllid Allanol Cyfun : 25% yn Dreth Gyngor. Mae hyn yn golygu y byddai angen, er mwyn cael yr un lefel o gyllid, gynyddu'r Dreth Gyngor 2% os oes 2% o ostyngiad yn y Cyllid Allanol Cyfun.

11 Cafodd y setliadau dros dro ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru eu cyhoeddi ar 10 Hydref 2017 a dyma'r newid yn y Cyllid Allanol Cyfun i awdurdodau Gogledd Cymru ar gyfer 2018-2019:

| Awdurdod Unedol | % Newid |
|---|---:|
| Ynys Môn | -0.1 |
| Gwynedd | -0.1 |
| Conwy | -1.0 |
| Sir Ddinbych | -0.9 |
| Sir y Fflint | -0.9 |
| Wrecsam | -0.3 |
| Newid ar Gyfartaledd | -0.55 |

12 Bydd yr Aelodau'n nodi bod Llywodraeth Cymru yn methu â darparu arwydd o'r Cyllid Allanol Cyfun y tu hwnt i 2018/2019.

13 Nid oes cap swyddogol wedi'i roi ar gynnydd yn y Dreth Gyngor, ond nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau'n mynd y tu hwnt i 5% o gap o'u dewis eu hunain. Y cynnydd cyfartalog ar draws awdurdodau Gogledd Cymru oedd 3.07%.

## RISGIAU A CHYFLEOEDD

14 Fel bob amser wrth osod y gyllideb, y prif risgiau i'r Awdurdod yw'r siawns o ddyfarniad cyflog uwch na'r disgwyl, lefelau uwch o weithgareddau, gostwng neu ddileu grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a chanlyniad y setliad dros dro i lywodraeth leol gan Lywodraeth Cymru.

15 Er bod y setliad dros dro i lywodraeth leol yn hysbys, mae'r amrywiadau eraill yn anhysbys ar hyn o bryd. Yr hyn sy'n gwneud cyfrifo'n fwy anodd yw'r trafodaethau sy'n mynd ymlaen am gyflog diffoddwyr tân yn y Cyd-Gyngor Cenedlaethol. Ni chytunwyd eto ar y dyfarniad cyflog ar gyfer 2017-2018. Roedd y cynnig gwreiddiol, sef 2%, yn fwy o 1% na'r swm yng nghyllideb 2017-2018 (tua £130,000). Fodd bynnag, gwrthodwyd hyn wedyn. O ganlyniad, mae adroddiad alldro 2017- 2018 yn rhagdybio

cynnydd o 1% ac mae'r gyllideb ar gyfer 2018-2019 yn rhagdybio 1% arall. Mae'r awdurdodau tân ac achub eraill yng Nghymru yn defnyddio 2% o gynnydd yn y cyflog ar gyfer 2017-2018 a 3% ar gyfer 2018-2019. Mae rhagdybio 1% yn golygu'r risg y gallai'r setliad cyflog yn y ddwy flynedd fod yn uwch na 1%. Byddai'r Cronfeydd Cyffredinol Wrth Gefn yn ffynhonnell bosibl o gyllid os felly y bydd pethau.

16 Yr amcangyfrif presennol o'r gwahaniaeth rhwng cost cyllideb sy'n parhau a'r gyllideb bresennol yw cynnydd o £1.34 miliwn, gan gynnwys y £414,000 o danategiad, y mae angen ei ganfod.

17 Mae cyfle i gau peth o'r bwlch o £1.34 miliwn drwy newidiadau i'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, sef testun adroddiad arall i'r cyfarfod hwn. Gallai hynny arbed £366,000 y flwyddyn a chau'r bwlch i £978,000. Gellid defnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb ar gyfer 2018-2019. Fodd bynnag, dyma atgoffa'r Aelodau fod risg yn gysylltiedig â'r strategaeth hon oherwydd byddai angen i'r Awdurdod wneud yr arbedion hynny y flwyddyn wedyn cyn unrhyw arbedion ychwanegol sydd eu hangen i gwrdd â chwyddiant prisiau a chyflogau.

18 Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru yn anghyffredin yn yr ystyr mai dim ond ers 2009 y maen nhw wedi gallu dal cronfeydd wrth gefn, a hynny ar ôl i 'Orchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009' ddod i rym. Newidiwyd y ddeddfwriaeth i gydnabod y baich posibl ar gyllidebau cynghorau petai angen cyfraniad ychwanegol ar Awdurdod mewn unrhyw flwyddyn. O 2009 ymlaen, mae defnyddio cronfeydd wrth gefn wedi bod yn rhan hollbwysig o'r gwaith o reoli materion ariannol yr Awdurdod Tân ac Achub, ac mae wedi sicrhau na fyddai angen cyfraniadau diwygiedig mewn unrhyw flwyddyn.

19 Gweler isod gronfeydd defnyddiadwy yr Awdurdod Tân ac Achub fel yr oedd pethau ar 31 Mawrth 2017.

| Cronfa Wrth Gefn | Gwerth £ miliwn | Pwrpas |
|---|---|---|
| Cronfa Gyffredinol | 2.149 | Lleddfu effaith disgwyliadau annisgwyl, argyfyngau a llifoedd arian anwastad. I ymorol am gostau trosglwyddo o gynlluniau na ellid eu hariannu o'r gyllideb refeniw. Defnyddir i danategu'r gyllideb refeniw, dros dro. |
| Cronfeydd a Glustnodwyd | 0.75 | Neilltuo arian ar gyfer prosiectau penodol. Mae'r prosiectau'n cynnwys Cyfarpar Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, costau trosglwyddo radio, a chynnydd mewn cyfraddau llog. |

20 Rhagwelir y bydd y cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu defnyddio ar gyfer y pwrpas y cawsant eu neilltuo ar ei gyfer, ac maen nhw wedi cael eu hadeiladau i'r broses flaengynllunio. Petaen nhw ddim yn cael eu defnyddio ar gyfer y pwrpas y cawsant eu neilltuo ar ei gyfer, byddai hynny'n golygu bod yr Awdurdod yn cael costau ychwanegol maes o law.

21 Mae'r alldro amcanol yn amcangyfrif y bydd £317k o'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio os nad yw'r Aelodau'n cymeradwyo'r diwygiadau i'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw. Byddai hyn yn gadael balans o £1.832 miliwn ar y Gronfa Gyffredinol. Doeth fyddai ystyried y byddai gan y Gronfa Gyffredinol y gwerth hwn ar ôl ystyried y risgiau sy'n gysylltiedig â setlo'r dyfarniadau cyflog blynyddol fel y crybwyllir yn gynharach yn yr adroddiad.

22 Wrth osod y gyllideb ar gyfer 2018-2019, dyma atgoffa'r Aelodau y bydd heriau ariannol mwy fyth yn wynebu'r Awdurdod yn 2019-2020. Bydd cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân yn cael eu hailbrisio yn 2018, a gallai hyn gynyddu'n fawr gost cyfraniadau'r cyflogwr a bydd gwariant ychwanegol yn gysylltiedig â symud i'r system gysylltiadau genedlaethol newydd. Gan fod maint y pwysau costau hyn yn anhysbys ar hyn o bryd, bydd angen mynd i'r afael â hynny yn ystod y broses o osod y gyllideb ar gyfer 2019-2020.

23 Oherwydd pwysau costau yn y dyfodol, efallai y bydd yr Aelodau'n dymuno parhau â 'strategaeth gymysg' ar gyfer 2018 -2019 fel ar gyfer 2017-2018, a hynny drwy gynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol a'u tanategu o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn. Mae'r tabl isod yn dangos effaith gwahanol gynnydd canrannol yn y cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol a'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn.

| Cynnydd Canrannol i Etholwyr | Cynnydd Gwirioneddol yn y Cyfraniadau gan Etholwyr £ | Cyfraniad o'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn £ | Cyfanswm Cynnydd i'w Ariannu £ |
|---|---|---|---|
| 1% | 331,600 | 646,700 | 978,300 |
| 1.5% | 497,400 | 480,900 | 978,300 |
| 2% | 663,200 | 315,100 | 978,300 |
| 2.5% | 829,000 | 149,300 | 978,300 |

24 Wrth ystyried yr opsiynau uchod, tynnir sylw'r Aelodau at yr opsiynau o gynyddu cyfraniadau gan yr awdurdodau cyfansoddol 1% neu 1.5%, a fyddai'n mynd beth o'r ffordd i gydnabod y pwysau ariannol a'r risgiau ar y sefydliadau hynny yn ogystal â'r Awdurdod ei hun. At hynny, dyma atgoffa'r Aelodau bod 2019-2020 yn gweld y Cyllid Allanol Cyfun yn gostwng 1.5% felly efallai y bydd angen cadw rhai Cronfeydd Wrth Gefn gerllaw. Hefyd, fel Trysorydd, y terfyn absoliwt y gellir ystyried bod y Gronfa Gyffredinol ar lefel ddarbodus yw 2.0% o'r gyllideb refeniw net – sef tua £660k.

25 Os 2% yw'r dyfarniad cyflog yn 2017/18 a 2% yn 2018/19 i Ddiffoddwyr Tân a staff Llywodraeth Leol, yr effaith ar y gyllideb ar gyfer 2018/19 fyddai angen £360k yn ychwanegol. Os caiff yr argymhellion eu cymeradwyo i danategu'r gyllideb gan gronfeydd wrth gefn, byddai digon o gronfeydd ar ôl i danategu'r gyllideb ymhellach os cytunir ar y setliadau cyflog ar fwy na'r 1% a ddefnyddiwyd i osod y gyllideb.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gyllideb yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant tymor hir, sef:<br>Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac aros yn ddiogel os ydynt yn digwydd;<br>Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, yn ymatebol ac yn fwy integredig fel bod gweithgareddau ataliol ac ymateb brys yn gallu parhau i fod ar gael pryd a lle bo angen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Yr amcangyfrif ar hyn o bryd o'r gwahaniaeth rhwng y gyllideb bresennol a'r gofyniad ar gyfer 2018-19 yw £1.3 miliwn |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Bod y dyfarniad cyflog i ddiffoddwyr tân yn cael ei gytuno'n uwch na 1% yn 2017-18 a 2018-19. Mae risg o gynnydd yn y lefelau gweithgareddau a dileu neu ostwng grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. |